Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad ar

# Wibli Wobli

**Uned 1**
**Oak House**
**Vaughn Court**
**Casnewydd**
**NP10 8BD**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Wibli Wobli

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Wibli Wobli Nursery Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Natasha Baker |
| Person â gofal | Carys-Anne Pounds; Molly Necrews |
| Nifer y lleoedd | 100 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 0 – 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 26 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 22 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun – Dydd Gwener 7.30yb – 6.00yh<br><br>(9.00yb – 11.30yb sesiwn plant yn cael eu hariannu i dderbyn addysg yn y tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Ydy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17 Medi 2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 10/02/2026 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gwybodaeth asesu yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gefnogi datblygiad pob plentyn

A2 Parhau i wella gallu a hyder ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol, er mwyn modelu'r iaith yn fwy naturiol a hybu defnydd dyddiol y plant ohoni

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymgartrefu’n gyflym wrth gyrraedd. Mae bron bob un yn barod i ddechrau eu diwrnod ac yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth rieni a gofalwyr. Mae’r ychydig sy’n dangos ansicrwydd yn cael eu cefnogi'n sensitif gan ymarferwyr ac yn setlo a chwarae'n hapus yn gyflym. Mae'r plant yn gyfarwydd â threfn y dydd ac yn mwynhau'r drefn honno. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac yn meithrin ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, mae’r arferion o ganu’r gloch wrth gyrraedd a threfniadau amser cylch a byrbryd yn cyfrannu at greu ymdeimlad o sicrwydd yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae lles y rhan fwyaf o blant yn ffynnu.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus ac yn mynegi eu barn a’u dewisiadau’n hyderus. Maent yn symud o gwmpas gweithgareddau yn annibynnol ac yn gwneud penderfyniadau priodol ynglŷn â’u chwarae. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth ddewis beth i fwyta amser byrbryd neu wrth benderfynu ymuno â gweithgaredd neu beidio. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn mwynhau archwilio eu hamgylchedd. Maent yn gwneud dewisiadau addas ynglŷn â sut a ble i chwarae sy'n eu galluogi i ddatblygu eu syniadau’n effeithiol. Mae bron bob un o’r plant yn llwyddo yn y lleoliad ac mae eu lles yn ffynnu.

Mae bob plentyn yn datblygu perthnasoedd cynnes a chefnogol ag ymarferwyr a chyfoedion. Maent yn rhyngweithio’n gadarnhaol ac yn dechrau ffurfio cyfeillgarwch sy’n briodol i’w hoedran a'u cam datblygu. Er enghraifft, maent yn llawn cyffro wrth groesawu ffrindiau i’r ystafell chwarae, gan rannu teganau’n garedig. Mae'r rhan fwyaf o blant yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd neu ochr yn ochr, ac yn dechrau cydweithio’n dda. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau cymdeithasol effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos agweddau cadarnahol at eu dysgu. Maent yn ymgysylltu’n frwdfrydig mewn chwarae ac yn archwilio eu hamgylchedd yn weithredol. Maent yn mynegi eu mwynhad yn eu gweithgareddau ac yn falch o’u cyflawniadau, yn enwedig wrth ddal swigod a’u gwylio’n chwalu o’u cwmpas.

Mae llawer o blant yn datblygu eu gallu i ganolbwyntio am gyfnodau estynedig ac i ddyfalbarhau. Maent yn treulio cyfnodau estynedig mewn gweithgareddau hunanddewisiedig fel paentio neu wneud lluniau mosaig ac yn falch o’u cyflawniadau. Maent hefyd yn yn dangos mwynhad ac yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau grŵp dan arweiniad oedolion, fel amser cylch a stori.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu hannibyniaeth yn briodol. Maent yn dewis adnoddau’n hyderus gan fod y rhain wedi eu gosod o fewn eu cyrraedd. Maent yn rheoli eu

hanghenion iechyd a hylendid personol, fel golchi dwylo, yn briodol, ac yn gwneud dewisiadau am fwyd yn gynyddol effeithiol.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn frwdfrydig i’r amgylchedd cyfoethog, ac yn dangos chwilfrydedd naturiol wrth archwilio’r adnoddau o’u cwmpas. Maent yn datblygu eu medrau cydweithio yn effeithiol, yn enwedig yn yr ardal gaffi lle maent yn ymgysylltu’n greadigol mewn chwarae dychmygus, gan ymgymryd â rolau lle maent yn paratoi bwyd ac yn gweini  ei gilydd. Mewn sefyllfaoedd o’r fath, mae llawer o blant yn magu hyder yn eu medrau cymdeithsaol wrth drafod rolau, cytuno ar gamau gweithredu ac addasu eu chwarae wrth i’r syniadau ddatblygu.

Mae’r rhan fwyaf  blant yn dangos penderfyniad da ac yn fodlon herio eu hunain trwy roi cynnig ar syniadau newydd yn annibynnol, er enghraifft wrth arbrofi gyda lliwio dŵr neu greu swigod. Mae eu medrau creadigol yn datblygu’n gryf. Mae’r rhan fwyaf yn gwneud dewisiadau hyderus wrth ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael. Gwelir hyn wrth iddynt drin toes i greu cacennau, arbrofi â gweadau, a chynhyrchu lluniau manwl drwy ddefnyddio offer ysgrifennu’n hyderus. Trwy hyn, maent yn datblygu dealltwriaeth gynnar o briodweddau deunyddiau ac yn mireinio eu medrau echddygol mân yn effeithiol.

Mae mwyafrif o’r plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau digidol, gan ddefnyddio offer syml i dynnu lluniau a chreu fideos byr. Mae eu medrau datrys problemau yn datblygu’n dda, gyda llawer yn trafod syniadau, gwneud rhagfynegiadau ac addasu eu cynlluniau. Er enghraifft, wrth iddynt archwilio effaith gwahanol uchderau ramp ar y pellter y gallai car deithio.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau mathemategol yn effeithiol trwy gyfuniad o weithgareddau wedi’u cynllunio a chwarae’n naturiol. Maent yn cyfrif cannwyll ar gacennau toes yn bwrpasol, yn cymharu cynhwysedd mewn ardal synhwyraidd ac yn defnyddio termau fel ‘mwy’, ‘llai’, ‘bron yn llawn’ a ‘llawn’ yn naturiol yn ystod eu chwarae.

Mae llawer o blant yn dechrau defnyddio marciau’n hyderus, gan greu nodiadau, rhestrau a symbolau yn ystod eu chwarae. Mae’r rhan fwyaf yn mwynhau llyfrau ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amser stori a chaneuon cyfarwydd. Mae tua hanner y plant yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg yn weddol hyderus, ond hyd yma ychydig iawn sy’n defnyddio geiriau neu ymadroddion Cymraeg yn annibynnol.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Maent yn mwynhau symud mewn gwahanol ffyrdd, wrth feicio o amgylch rhwystrau, rhedeg a dilyn llwybrau heriol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant. Mae pob un wedi cwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn hyderus o ran y camau i'w dilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae ymarferwyr yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol o ran iechyd, hylendid a diogelwch. Er enghraifft, maent yn cadw gwiriadau dyddiol tylwyr o'r amgylchedd ac yn monitro plant yn ofalus wrth iddynt symud rhwng ardaloedd. Maent yn cadw cofnodion clir o bresenoldeb plant yn eu gofal a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, maent yn annog plant i fwyta'n iach, bod yn egnïol a chwarae yn yr awyr agored. Mae gweithdrefnau newid clytiau yn cyd-fynd â chanllawiau presennol ar reoli heintiau. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol ac yn addas ar gyfer oedrannau'r plant. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthnasoedd cynnes a chefnogol â phlant. Maent yn dangos gofal, parch a charedigrwydd cyson, gan roi cysur a sicrwydd, pan fo angen. Mae ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i annog ymddygiad priodol, gan fodelu medrau cymdeithasol da wrth iddynt chwarae ochr yn ochr â'r plant. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gymryd tro, rhannu adnoddau neu'n cynnig dewisiadau eraill er mwyn osgoi anghydfod. Mae ymarferwyr yn ymatebol i anghenion plant, gan wrando ar eu barn a'u parchu.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ac yn darparu ystod briodol o adnoddau sy'n cefnogi chwarae a dysgu'r plant yn effeithiol. Maent yn defnyddio arsylwadau a'u gwybodaeth am blant yn dda i drefnu cyfleoedd sy'n adlewyrchu eu diddordebau yn ystod eu chwarae a'u dysgu. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cofnodi gweithgareddau sydd o ddiddordeb i'r plant ac yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio a gwneud addasiadau i'r ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn cofnodi cynnydd y plant ac yn nodi eu camau dysgu nesaf yn gyffredinol briodol. Maent yn adnabod plant y gallent fod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gynnar ac yn eu cefnogi'n dda. Maent yn gweithio'n agos gyda rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i sicrhau'r cymorth a'r deilliannau gorau i bob plentyn.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd cynhwysol, diogel ac atyniadol sy'n ymateb yn briodol i arsylwadau a diddordebau'r plant. Maent yn defnyddio ystod effeithiol o adnoddau, yn enwedig deunyddiau naturiol ac adnoddau chwarae agored, i feithrin chwilfrydedd, creadigrwydd ac annibyniaeth. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn hyblyg ac yn cael eu trefnu'n sensitif gan alluogi plant i symud yn rhydd a dilyn eu hangerdd yn hyderus.

Mae perthnasoedd rhwng ymarferwyr a phlant yn gynnes ac yn seiliedig ar egwyddorion gofalgar. Mae’r holl ymarferwyr yn croesawu plant yn gadarnhaol, yn dangos empathi ac yn defnyddio tôn llais sy’n meithrin ymdeimlad o ddiogelwch a hyder. Mae eu dulliau cyfathrebu clir yn rhoi amser i blant brosesu a mynegi eu hatebion. Defnyddir holi agored yn effeithiol i ymestyn meddwl a chwarae plant. Er enghraifft, pan ofynnir i’r plant gasglu offer a chynhwysion ar gyfer creu ‘potion hud’, manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu eu medrau cynllunio a datrys problemau.

Mae ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau parhaus yn briodol i lywio gweithgareddau, gan gyfuno syniadau plant â gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Er hyn, nid yw’r defnydd o asesu bob amser yn ddigon bwriadus i sicrhau dilyniant yn natblygiad medrau unigol pob plentyn.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau darllen ac ysgrifennu cynnar yn gryf. Mae ymarferwyr yn modelu darllen yn naturiol yn ystod y dydd, maent yn ddefnyddio llyfrau o ansawdd da gan gyfeirio’n gyson at eiriau a lluniau i ymestyn dealltwriaeth y plant o’r testun. Maent yn hyrwyddo marcio cynnar drwy weithgareddau apelgar gan gynnwys defnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu ar wahanol arwynebau. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn modelu’r iaith Gymraeg yn briodol; er hyn, ni chynigir digon o gyfleoedd i blant ailadrodd ac ymarfer patrymau iaith newydd er mwyn eu hymgorffori’n annibynnol.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd ar gyfer datrys problemau drwy weithgareddau fel adeiladu tyrau, arbrofi gyda dŵr neu ddarganfod sut i symud peli ar hyd cafnau. Maent yn annog plant i ddefnyddio offer digidol i dynnu lluniau a chwarae gydag effaith golau ac yn dechrau adnabod cyfleoedd iddynt ehangu ar y ddarpariaeth hon ar draws yr holl ardaloedd dysgu.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad creadigol, corfforol a mathemategol yn gadarn, gyda gweithgareddau’n annog plant i archwilio lliw, rhythm, cydbwysedd, cyfri a mesur mewn ffyrdd ystyrlon. Mae ymarferwyr yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant drwy fodelu caredigrwydd a pharch. Maent yn hyrwyddo amrywiaeth drwy weithgareddau fel ioga chwerthin a dathliadau Diwali, Dydd Gŵyl Dewi ac Eisteddfod yr Urdd.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac allanol yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Maent yn gweithredu trefniadau glanhau rheolaidd ac yn hyrwyddo arferion rheoli heintiau effeithiol, sy’n lleihau risgiau i iechyd a diogelwch plant. Dim ond mynediad awdurdodedig a ganiateir i'r lleoliad, a chedwir cofnod manwl o bob ymwelydd. Mae drysau a giatiau mewnol diogel, y gall y staff yn unig eu hagor, yn atal plant rhag gadael yr

adeilad heb oruchwyliaeth. Trefnir mynediad addas i rieni i'r cyntedd er mwyn eu gollwng a chasglu eu plant yn ddiogel.

Mae gwiriadau diogelwch rheolaidd ar yr adeilad yn cael eu cynnal, ac mae tystysgrifau statudol yn gyfredol. Ceir asesiadau risg defnyddiol ar gyfer bron bob rhan o'r lleoliad, gan gynnwys ar gyfer tân, ac mae'r ymarferwyr yn eu dilyn yn briodol. Mae arweinwyr yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd i nodi unrhyw risgiau posibl. Maent yn cydweithio'n agos â rheolwr yr adeilad er mwyn sicrhau safonau uchel o ddiogelwch.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn elwa o olau naturiol da. Mae'r ystafelloedd chwarae wedi'u gosod yn effeithiol i alluogi plant i fanteisio ar ystod eang o brofiadau, gan gynnwys chwarae creadigol, dychmygol, cymdeithasol a synhwyraidd.

Mae arweinwyr yn creu ymdeimlad o berthyn yn effeithiol trwy ddarparu pegiau cotiau unigol ac arddangos gwaith y plant er mwyn dathlu eu cyflawniadau. Maent wedi datblygu'r ddarpariaeth fel bod amrywiaeth briodol o deganau, adnoddau a gweithgareddau diddorol ar gael  blant. Mae'r rhain yn cyd-fynd â chamau datblygiad plant ac maent o fewn eu cyrraedd i'w defnyddio'n annibynnol.

Darperir dodrefn, teganau ac adnoddau o ansawdd da. Mae ystod fuddiol o ddeunyddiau naturiol ac adnoddau go iawn ar gael, yn enwedig yn yr ardal chwarae rôl, sy'n cefnogi profiadau dilys i'r plant. Mae hyn yn hyrwyddo parch at adnoddau ac yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio eitemau'n ddiogel, er enghraifft wrth drin llestri go iawn yn ofalus. O ganlyniad, mae'r amgylchedd yn cefnogi anghenion dysgu a datblygiad y rhan fwyaf o blant yn effeithiol. Mae'r ystod briodol o adnoddau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn effeithiol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn gosod disgwyliadau realistig sy'n canolbwyntio'n gadarn ar greu amgylchedd lle gall pob plentyn ffynnu. Maent yn meithrin ethos cryf o gydweithio, gan sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn deall ac yn ymrwymo i weledigaeth a nodau'r lleoliad. Mae rolau a chyfrifoldebau staff wedi eu diffinio'n glir, a darparwyd datganiad o ddiben eglur sy'n hysbysu teuluoedd am ddarpariaeth y lleoliad. Mae polisïau a gweithdrefnau defnyddiol ar waith, a chaiff y rhain eu dilyn yn gyson gan ymarferwyr. O ganlyniad, mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol, yn rhannu syniadau ac yn myfyrio ar eu harferion, gan ymateb yn sensitif i anghenion newidiol  plant.

Mae trefniadau hunanwerthuso'r lleoliad yn gadarn. Mae arweinwyr yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth amrywiol, gan gynnwys arsylwadau o ymarferwyr, barn rhieni a gwybodaeth am blant. Caiff yr wybodaeth hon ei thrafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm, gan sicrhau bod penderfyniadau am welliant yn gadarn ac wedi'u seilio ar dystiolaeth

gyfredol. Mae hyn yn galluogi'r arweinwyr i nodi blaenoriaethau clir a monitro cynnydd yn systematig ac addasu cynlluniau, lle bo angen.

Mae arweinwyr yn gweithredu prosesau recriwtio cadarn a gweithdrefnau diogelu priodol sy'n sicrhau amgylchedd diogel. Maent yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygiad proffesiynol parhaus. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer gwella hyder ymarferwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigon effeithiol. Cynhelir goruchwyliaethau a gwerthusiadau rheolaidd sy'n meithrin hyder a medrau ymarferwyr ac yn hyrwyddo diwylliant o fyfyrio. Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'n ddoeth ac yn defnyddio grantiau yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddiwyd cyllid diweddar i ehangu adnoddau ac i ddatblygu ardal ysgol goedwig gan gyfoethogi cyfleoedd awyr agored ar gyfer archwilio, symud a chwarae creadigol.

Mae cydweithio allanol yn gryf. Mae arweinwyr yn gweithio'n agos ag asiantaethau proffesiynol, y gymuned leol a darparwyr gwasanaethau eraill i ehangu profiadau'r plant. Ceir partneriaethau cryf â theuluoedd, gan gynnwys cyfleoedd rheolaidd i rieni ymuno â gweithgareddau a thrafod cynnydd eu plentyn. Mae cysylltiadau effeithiol ag ysgolion cyfagos yn cefnogi pontio llyfn trwy rannu gwybodaeth berthnasol a threfnu ymweliadau cyn i blant gychwyn yn yr ysgol.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2026